



Swyddfa'r Harbwr, Y Cei, Conwy, LL32 8BB
Rhif ffôn: (01492) 596253 Ffacs: (01492) 585222
E-bost: harbwr@conwy.gov.uk www.conwy.gov.uk/harbwrachychod

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Amodau Lansio ar gyfer Llithrfeydd

Cynnwys

Cofrestru a ffioedd	1
Llithrfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1
Parcio.....	2
Giatiau Storm.....	2
Is-ddeddfau	2
Diogelwch	2
Dyddiadau cau.....	3

Cofrestru a ffioedd

Rhaid i gychod pŵer a badau personol (jet-sgis) sy'n dymuno lansio oddi ar lithrfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gofrestru eu cwch a darparu prawf o yswiriant sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd trydydd parti o £3,000,000.

Yn ogystal â'r ffi gofrestru, rhaid i unigolion sy'n lansio cychod ddal trwydded dymhorol ddilys neu dalu'r ffi lansio ddyddiol ar gyfer y llithrfa honno. Nid oes rhaid i gychod di-bŵer gofrestru na thalu ffi lansio.

Mae cofrestriadau Conwy bellach yn cael eu derbyn ar lithrfeydd sy'n cael eu gweithredu gan Gyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Mae'n rhaid arddangos sticeri cofrestru ar ochr dde ac ochr chwith pob cwch neu fad personol.

Llithrfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r llithrfeydd canlynol ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio i lansio:

Porth Eirias (Bae Colwyn) Ar gael i lansio cychod pŵer, di-bŵer a badau personol.

Llithrfa Aberhod (Bae Colwyn) Ar gael i lansio cychod di-bŵer yn unig. Llithrfa yn caniatáu mynediad i'r traeth ar gyfer lansio cychod di-bŵer.

Llithrfa'r Beacons (Morfa Conwy) Ar gael i lansio cychod pŵer, di-bŵer a badau personol.

Llithrfa Penmaenmawr Defnyddir hon yn bennaf gan Glwb Hwyllo Penmaenmawr, ond mae hefyd ar gael i lansio cychod pŵer a di-bŵer (dim badau personol). Oherwydd bod lle yn brin, dim ond 10 lansiad y dydd a ganiateir i unigolion nad ydynt yn aelodau o'r clwb. Caiff trigolion Penmaenmawr ac aelodau Clwb Hwyllo Penmaenmawr gofrestru a lansio am ddim. Rhaid i ymwelwyr gofrestru a thalu'r ffi lansio.

Llithrfa Llanfairfechan Ar gael i lansio cychod pŵer a di-bŵer yn unig. (Ni chaniateir badau personol oherwydd bod yna grwynau peryglus dan y dŵr). Cofrestru a lansio am ddim i aelodau Clwb Hwyllo Llanfairfechan yn unig. Rhaid i ymwelwyr gofrestru a thalu'r ffi lansio neu ddal trwydded dymhorol.

Llithrfa Venue Cymru (Traeth y Gogledd Llandudno) Defnyddir hon yn bennaf gan Glwb Hwyllo Llandudno, ond mae hefyd ar gael i lansio cychod pŵer a di-bŵer (dim badau personol). Oherwydd bod lle yn brin, dim ond 10 lansiad y dydd a ganiateir i unigolion nad ydynt yn aelodau o'r clwb. Rhaid i ymwelwyr gofrestru a thalu'r ffi lansio. Gellir storio trelars ar y cerrig mân ond rhaid parcio cerbydau oddi ar y promenâd.

Nid yw Llithrfeydd na Rampiau Mynediad sydd wedi'u lleoli ar safleoedd heblaw'r rhai a restrir uchod wedi'u hawdurdodi i'r cyhoedd eu defnyddio, ac maent yn destun trefniadau arbennig.

Parcio

Caiff unigolion sy'n dal trwydded lansio dymhorol ddilys barcio eu cerbyd am ddim ym maes parcio'r Beacons a Llithrfa Porth Eirias. Nid yw'r consesiwn hwn yn berthnasol i unrhyw faes parcio arall a reolir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Giatiau Storm

Gallai cau'r giatiau storm yn ystod gweithdrefnau gweithredol effeithio ar fynediad at lithrfeydd. Nid oes cyfyngiadau giatiau ar lithrfeydd y Beacons na Phenmaenmawr ac fe allent gynnig safle lansio arall.

Is-ddeddfau

Dylai defnyddwyr cychod ddarllen a deall yr is-ddeddfau lleol sy'n ymwneud ag ymddygiad cychod pleser ar Arfordir Conwy. Gallwch wneud cais i'r Cymhorthydd Llithrfa i gael darllen y copi y mae'n ei gadw. Hoffem dynnu eich sylw yn benodol at y cyfyngiadau cyflymder sy'n berthnasol yn Harbwr Conwy, Traeth y Gogledd Llandudno a Bae Colwyn. Rhaid cael arsylwr yn ogystal â'r gyrrwr mewn cychod sgïo bob amser pan fydd sgïwr yn y dŵr. Os byddwch chi'n torri'r is-ddeddfau sy'n ymwneud â Chychod Pleser Glan Môr, gallech gael eich erlid a cholli eich caniatâd i ddefnyddio cyfleusterau lansio'r Cyngor.

Ni ddylid gadael unrhyw gychod ar eu pennau eu hunain yn unrhyw rai o'r safleoedd lansio. Rhoddir blaenoriaeth i gychod masnachol sy'n cludo teithwyr.

Diogelwch

Argymhellir yn gryf y dylai unrhyw un sy'n lansio cwch ar lithrfeydd y Cyngor gadw'r canlynol yn eu cwch:

- a) Siaced achub neu gymorth arnofio pwrpasol ar gyfer pob unigolyn sydd ar y cwch
- b) Angor a rhaff halio sy'n addas i'w defnyddio gan y cwch
- c) Pecyn fflêrs sy'n cynnwys o leiaf 4 o rai gwyn a 4 o rai coch neu oren
- d) Diffoddwr tân

e) Radio VHF

Dylai unrhyw un sydd yn lansio cwch fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer:

- a) Diogelwch eu cwch
- b) Diogelwch cychod eraill
- c) Diogelwch yr unigolion sydd ar y cwch, gan gynnwys gwisgo siacedi achub neu gymhorthion arnofio wrth lansio ac mewn amgylchiadau priodol pan fydd y cwch ar y dŵr. Rhaid i gortynnau diffodd yr injan, os ydynt wedi'u gosod, fod wedi'u clymu'n sownd yng ngyrrwr neu lywiwr y cwch wrth deithio.
- d) Diogelwch unigolion yn y dŵr neu gerllaw.
- e) Gofynion is-ddeddfau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â gweithredu Cychod Pleser Glan Môr.
- f) Gofynion y Rheoliadau Rhyngwladol ar Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr.
- g) Amodau'r tywydd ar y pryd a'r rhagolygon.

Gall y Cymhorthydd Llithrfa atal cwch rhag lansio os yw'n ystyried nad yw'n ddiogel iddo wneud hynny am unrhyw reswm. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gau unrhyw lithrfa os ystyrir bod angen gwneud hynny am unrhyw reswm.

Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros farwolaeth neu anaf i unrhyw unigolyn nac am ddifrod i eiddo'r ymgeisydd neu ei westeion, asiantiaid, ei weithwyr nac unrhyw berson arall ac eithrio pan fo digwyddiad o'r fath yn ymwneud ag esgeulustra ar ran y Cyngor, ei weision neu ei asiantiaid. Ac eithrio dan yr amgylchiadau uchod, bydd yr ymgeisydd yn digolledu y Cyngor yn erbyn hawliadau, colledion neu dreuliau eraill a ysgwyddir ganddo.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cofrestriad a chaniatâd lansio yn ôl os na chedwir at yr Amodau.

Badau Personol

I weithredu bad personol rhaid:

- i chi fod yn o leiaf 18 oed os ydych yn anghymwys.
- i chi fod rhwng 15 a 17 oed ac yn meddu ar dystysgrif cymhwysedd RYA ar gyfer bad personol.
- i chi fod rhwng 12 a 14 oed ac yn meddu ar dystysgrif cymhwysedd RYA ac yn gweithredu o dan oruchwyliaeth oedolyn.

Nid yw pobl ifanc o dan 12 oed yn cael gweithredu bad personol.

Dyddiadau cau

Dyddiadau cau'r llithrfeydd

Efallai y bydd yna rai dyddiadau yn ystod 2023 pan fydd y llithrfeydd ar gau a bydd y rhain yn cael eu hysbysebu ar hysbysfyrdau'r llithrfa ymlaen llaw.

Matthew Forbes
Harbwr Feistr Conwy

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.

This document is also available in English.